# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020

## Crynodeb Gweithredol

Mehefin 2021

# 01 Cyflwyniad

Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru yw'r cyfrifiad diffiniol o weithgarwch busnesau cymdeithasol yn 2020. Mae'n dilyn ymarferion tebyg a gynhaliwyd bob dwy flynedd ers 2014 gyda'r nod o ddarparu amlinelliad cyfoes o gyflwr, maint a graddfa'r sector – gan gynnwys gwiriad iechyd y sector. Yn gysylltiedig â'r olaf, mae'r ymarfer hefyd yn gyfle i ddeall sut mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y sector.

I lawer o sylwebyddion, mae busnesau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn fodd i ailgydbwyso'r meddylfryd economaidd trwy symud y pwyslais i ffwrdd oddi wrth wneud yr elw mwyaf, tuag at wella lles, gwydnwch a chynaliadwyedd y cymunedau mae busnesau wedi'u lleoli ynddynt. Gall busnesau cymdeithasol fod yn rhan allweddol o uchelgais Llywodraeth Cymru i greu 'twf cynhwysol', sef cysyniad sydd wrth wraidd papur strategaeth graidd Llywodraeth Cymru yn arwain at 2021, 'Ffyniant i Bawb'.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr effaith y mae mentrau cymdeithasol yn ei chael. Ar y naill law, maent yn darparu gwasanaethau hanfodol mewn ystod eang o sectorau i gymunedau ledled Cymru. Ar y llaw arall, maent yn chwarae rhan hanfodol o ran creu economi decach a mwy gwydn trwy weithredu yn y rhannau mwyaf difreintiedig o'r wlad, gyda lefelau cymharol uchel o weithwyr yn ennill y cyflog byw ac yn dod allan o ddiweithdra. Mae'r pandemig wedi cyflymu penderfynoldeb ar draws y llywodraeth a chymdeithas i greu economi decach, yn rhydd o dlodi ac yn fwy gwydn ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol. Mae'n amlwg y gall y sector busnesau cymdeithasol chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r uchelgais hon, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r effaith y mae'r sector wedi'i chael eisoes a sut y gall dyfu hyd yn oed ymhellach.



# 02 Methodoleg a chyd-destun

Dilynodd yr astudiaeth ddull tebyg yn fras i'r un a fabwysiadwyd mewn ymarferion blaenorol, a gellir ei chrynhoi mewn tri phecyn gwaith: casglu data, gwaith arolygu, a dadansoddi. Yn yr un modd, gwnaed rhai addasiadau i'r dull wrth gydnabod y cyd-destun gwahanol yn sgil y pandemig COVID-19.



# 03 Cyfansoddiad y Sector

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL:

- Amcangyfrifir bod y sector yn cynnwys hyd at 2,309 o fusnesau a hyd at 56,000 o weithwyr, ac mae'n cynhyrchu gwerth £3.1–3.8 biliwn
- Mae busnesau cymdeithasol wedi'u crynhoi'n arbennig yn rhai o gymoedd tlotaf De Cymru ac maent yn fwy tebygol o weithredu mewn ardaloedd o amddifadedd
- Mae'r sector yn cynnwys grŵp craidd o fusnesau cymdeithasol sydd wedi'u hen sefydlu, a ategir gan grŵp cynyddol o fusnesau newydd
- Ymddengys y bu cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch dechrau busnes dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n gysylltiedig â'r prosiect Dechrau Newydd gan Fusnes Cymdeithasol Cymru.
- Mae gweithgarwch dechrau busnes wedi'i grynhoi'n arbennig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru – Sir Ddinbych a Wrecsam, ac ardaloedd sy'n cychwyn o sylfaen is o weithgarwch busnes cymdeithasol
- Ceir cydbwysedd cadarnhaol rhwng y rhywiau o fewn arweinyddiaeth busnesau, sy'n cymharu'n ffafriol â'r stoc fusnes gyffredinol a mentrau cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig (DU)
- Fodd bynnag, nid oes cynrychiolaeth ddigonol o fewn arweinyddiaeth y sector o blith cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, ac mae diffyg entrepreneuriaid ifanc (sy'n gyfran is na chyfartaledd y DU)
- Mae busnesau cymdeithasol yn bodoli ar draws ystod eang o sectorau gweithredol, ond maent wedi'u seilio'n bennaf ym meysydd y celfyddydau a hamdden, canolfannau/grwpiau cymunedol, addysg, ac iechyd a gofal
- Mae rhai o'r sectorau hyn, megis busnesau ym maes celfyddydau/hamdden a chanolfannau cymunedol, yn cyfrif am gyfran uchel o fusnesau, ond cyfran lawer llai o gyflogaeth a gwerth a gynhyrchir
- I'r gwrthwyneb, mae iechyd a gofal yn cynrychioli cyfran lawer uwch o gyflogaeth nag a geir mewn busnesau, tra bod y grŵp bach o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y sector 'eiddo' yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r trosiant a gynhyrchir (ac eithrio'r busnesau cymdeithasol mwyaf, h.y. Glas Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality, na chawsant eu harolygu)

# 04 Gwerth ac effeithiau cymdeithasol



## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL:

- Bu ffocws cynyddol ar gefnogi cymunedau ac unigolion sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol neu'n ariannol
- Ar y cyfan, roedd busnesau wedi disgrifio mwy o amcanion cymdeithasol eleni, a allai o bosibl ddangos rôl y sector o ran ehangu cymorth i fynd i'r afael â'r anghenion cymdeithasol cynyddol a grëwyd gan y pandemig.
- Mae 73 y cant yn ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'r rhan fwyaf yn credu ei bod yn cael effaith ar eu busnes trwy, er enghraifft, lywio'r cymorth maent yn ei gynnig, ei hymgorffori yn eu dogfen lywodraethu, neu ei defnyddio mewn ceisiadau am gyllid
- Mae 54 y cant yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac, unwaith eto, nododd y mwyafrif ei bod yn effeithio ar eu busnes trwy, er enghraifft, ffurfio rhan o'u polisïau diogelu a hyfforddiant staff
- Dim ond 20 y cant sy'n ymwybodol o'r economi sylfaenol
- Mae 44 y cant yn mesur eu heffeithiau cymdeithasol, er mai dim ond 12 y cant sy'n defnyddio hyn i hyrwyddo eu busnes
- Mae 68 y cant yn talu'r Cyflog Byw i'w holl staff, sydd ychydig yn is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer y DU
- Roedd 36 y cant yn cyflogi pobl a oedd yn ddi-waith yn uniongyrchol cyn dechrau yn eu swydd, sy'n amlygu rôl y sector o ran cynorthwyo'r bobl sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur
- Mae 69 y cant o weithlu busnesau yn byw o fewn 10 milltir i'w gweithle, sy'n dangos rôl y sector fel cyflogwyr lleol
- Ymddengys y bu cwymp mewn gweithgarwch gwirfoddoli o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19
- Fodd bynnag, amcangyfrifir bod 36,000-47,500 o wirfoddolwyr o fewn y sector yng Nghymru




# 05 Arferion busnes, perfformiad masnachu, a COVID-19

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL:

- Bu cyfradd twf gyson rhwng 2016 a 2019, cyn gwastatáu hyd at yr adeg yr arolygwyd yr ymatebwyr ar ddiwedd 2020/dechrau 2021 (pan oedd y pandemig yn cael ei effaith ar yr economi)
- Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sector, gyda 63 y cant wedi'u gorfodi i oedi ar fasnachu, 69 y cant yn nodi trosiant is na'r disgwyl, a 38 y cant yn nodi risg i'w cronfeydd wrth gefn – mae'n ymddangos bod y data'n awgrymu mwy o effaith niweidiol ar y sector busnesau cymdeithasol nag ar yr economi'n gyffredinol
- Cymerwyd nifer o fesurau, megis darparu cymorth o bell a/neu ddatblygu marchnad ar-lein, a bu defnydd sylweddol o amrywiaeth o fesurau cymorth ariannol a chymorth gan y llywodraeth.
- Mae busnesau wedi canolbwyntio ar gynnal eu gweithrediadau (yn hytrach na cheisio arallgyfeirio eu marchnadoedd)
- Roedd 45 y cant o fusnesau cymdeithasol o'r farn bod COVID-19 yn fygythiad mawr neu ddifrifol i'w hyfywedd ariannol dros y 12 mis nesaf (ar adeg yr arolwg), gan ddangos risg barhaus.
- Mae ffocws masnachol busnesau cymdeithasol a ganfuwyd yn yr ymarfer mapio blaenorol wedi'i gynnal yn 2020, gyda 64 y cant yn cynhyrchu o leiaf hanner eu hincwm trwy fasnach
- Bu masnachu â'r cyhoedd yn brif ffynhonnell incwm yn gyson i fusnesau cymdeithasol ers 2016, gan ddisodli cyllid grant fel y brif ffynhonnell incwm
- Ymddengys y bu gostyngiad bach mewn masnach â'r sector cyhoeddus; fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod mwyafrif helaeth y busnesau nad ydynt yn masnachu â'r sector ar hyn o bryd yn dymuno gwneud hynny
- Roedd busnesau yn lleiaf medrus ym maes caffael, a dilynir hyn gan gael mynediad at gyllid allanol, marchnata, a marchnata/gwerthu ar-lein
- Ceir cydweithredu helaeth o fewn y sector, gyda 67 y cant yn ymwneud â rhwydweithio sectorol, 57 y cant yn ymwneud â chefnogaeth gan gymheiriaid, a 42 y cant o'r rhai sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus wedi ymrwymo i drefniadau cynnig ar y cyd

# 06 Heriau, anghenion o ran cymorth, a llwybrau at dwf




## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL:

- Nododd mwyafrif helaeth y busnesau y bydd cyfyngiadau COVID-19 yn parhau i fod yn rhwystr rhag twf
- Yn ogystal â'r cyfyngiadau hynny, cael mynediad at gyllid grant yw'r rhwystr a nodwyd amlaf, yn bennaf oherwydd nad oedd busnesau'n gwybod ble i chwilio am gyllid
- Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n ymwybodol o'r model cyllid cyfunol a byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael mynediad at gyllid o'r fath
- Cyngor, gwybodaeth neu gymorth mentora mewn perthynas â chyllid (yn bennaf sut i ddod o hyd i gyllid priodol) oedd y prif angen a nodwyd o ran cymorth
- Mae 30 y cant wedi profi neu'n disgwyl profi effaith yn sgil Brexit, yn bennaf oherwydd bod cyllid yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi'i dynnu'n ôl
- Mae marchnata yn parhau i fod yn un o'r prif rwystrau ac, ar wahân i gyllid, dyma'r angen o ran cymorth a nodwyd amlaf ond un
- Mae cymorth mewn perthynas â marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol yn angen penodol
- Roedd cymorth mewn perthynas â chaffael hefyd yn un o'r anghenion a nodwyd amlaf



# 07 Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r ymchwil hon yn canfod bod y sector busnesau cymdeithasol yn parhau i wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd pwysig yng Nghymru, gyda hyd at 2,309 o fusnesau yn cyflogi hyd at 56,000 o bobl, ac yn cynnig nifer tebyg o gyfleoedd gwirfoddoli, ac yn cynhyrchu gwerth hyd at £3.8 biliwn. Er bod y pandemig COVID-19, heb os, wedi cael effaith sylweddol ar y sector, mae hefyd wedi dangos lefel annisgwyl o wydnwch lle mae'n ymddangos bod effaith COVID-19 wedi'i hamlygu mewn oedi o ran twf, yn hytrach na dirywiad.

Mae'r data hefyd yn dangos rôl bwysig y sector o ran gwrthsefyll effeithiau'r pandemig, gyda mwy o ffocws ar gefnogi cymunedau ac unigolion sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol neu'n ariannol. Ar y cyfan, ymddengys bod busnesau wedi cyfrannu tuag at ystod fwy o amcanion cymdeithasol eleni, sy'n awgrymu bod y sector wedi ceisio ehangu ei gynnig er mwyn gwrthsefyll yr argyfyngau cymdeithasol ac ariannol a grëwyd gan y pandemig.

Gorfodwyd mwyafrif y busnesau i oedi ar fasnachu ac maent wedi colli incwm; fodd bynnag, bu defnydd sylweddol o'r amrywiaeth o ddarpariaethau cymorth, sydd wedi helpu i gynnal eu gweithrediadau. Yn gyffredinol, nid yw busnesau wedi ceisio arallgyfeirio eu cynnig a'u marchnadoedd; yn hytrach, maent wedi ceisio cynnal eu gweithrediadau gystal ag y gallant, â rhai addasiadau i'w prosesau (e.e. cymorth o bell a datblygu eu marchnad ar-lein). Mae'r ffaith nad yw busnesau wedi cael eu gorfodi i arallgyfeirio, yn amlygu eu gwydnwch yn wyneb y pandemig.

Ar ôl dangos gwydnwch sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19, mae busnesau cymdeithasol ar y trywydd cywir i barhau i wneud cyfraniad pwysig i fywyd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod, gyda'r arolwg yn dangos cryn hyder busnes dros y 2-3 blynedd nesaf.

**Wavehill:** ymchwil cymdeithasol ac economaidd
**Awduron yr adroddiad:** Ioan Teifi, Oliver Allies

Comisiynwyd a chyhoeddwyd gan
**Fusnes Cymdeithasol Cymru.**

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

**Ffôn:** 0300 111 5050
**E-bost:** SBWEnquiries@wales.coop
**Twitter:** @SocialBizWales

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, megis print bras neu braille, ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg, ac anelwn at ddarparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.

**Busnes Cymdeithasol Cymru**
**Social Business Wales**

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol
/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund